

## Rheolau'r Llwybr

Mae'r ffordd rydym yn beicio heddiw yn ffurfio mynediad i lwybrau beicio mynydd 'fory. Chwaraewch eich rhan yn gwarchod a gwella mynediad i'n sbort a'i ddelwedd trwy gadw at y rheolau canlynol a luniwyd gan IMBA, y Gymdeithas Beicio Mynydd Ryngwladol. Mae'r rheolau hyn yn cael eu cydnabod ledled y byd fel côd ymarfer safonol ar gyfer beicwyr mynydd. Cenhadaeth IMBA yw hyrwyddo beicio mynydd sy'n amgylcheddol briodol a chyfrifol yn gymdeithasol.

### 1. Beicio ar Lwybrau Agored yn unig.

Dylech barchu lwybrau a ffordd sydd ar gau (gofynnwch os oes amheuaeth); dylech osgoi tresbasu ar dir preifat; gofynnwch am drwyddedau neu awdurdod arall sydd ei angen. Bydd y ffordd rydych yn beicio yn dylanwadu ar benderfyniadau a pholisïau rheoli llwybrau.

### 2. Peidiwch â Gadael Eich Ôl.

Byddwch yn sensitif i'r pridd dan eich olwynion. Dysgwch adnabod gwahanol fathau o bridd ac adeiladwaith llwybrau, ac ymarfer beicio effaith isel. Mae llwybrau mwldyd a gwlyb yn haws eu niweidio. Os yw gwely'r llwybr yn feddal, ystyrich opsiynau reidio eraill. Mae hyn hefyd yn golygu aros ar lwybrau sy'n bodoli eisoes a pheidio â chreu rhai newydd. Peidiwch â thorri ar draws igamogam. Sicrhewch eich bod yn pacio cymaint allan ag yr ydych yn ei bacio i mewn.

### 3. Rheoli eich Beic!

Gall diffyg talu sylw am eiliad yn unig achosi problemau. Ufuddhewch bob rheol ac argymhelliad beicio.

### 4. Ildiwch i eraill ar y Llwybr.

Gadewch i gyd-ddefnyddwyr wybod eich bod ar eich ffordd. Mae cyfarchiad cyfeillgar neu ganu cloch yn briodol ac yn gweithio'n dda: peidiwch â dychryn eraill. Dangoswch eich parch pan yn pasio trwy arafu neu hyd yn oed stopio. Byddwch yn barod am ddefnyddwyr eraill y llwybr o gwmpas corneli neu mewn mannau 'dall'. Mae ildio yn golygu arafu, cyfathrebu, bod yn barod i stopio os oes angen a phasio yn ddiogel.

### 5. Peidiwch byth â dychryn anifeiliaid.

Mae pob anifail yn dychryn os oes symudiad sydyn neu swm uchel. Gall hyn fod yn beryglus i chi, eraill a'r anifeiliaid. Caniatewch le ychwanegol i anifeiliaid a rhoi amser iddynt arfer efo chi. Pan yn pasio ceffylau, cymerwch ofal arbennig a dilyn cyfarwyddiadau gan y marchogion (gofynnwch os nad ydych yn siwr). Mae achosi i wartheg redeg ac aflonyddu ar fywyd gwyllt yn drosedd ddifrifol. Gadewch gatiâu fel y maent, neu yn unol ag unrhyw arwyddion.

### 6. Cynlluniwch ymlaen llaw.

Dylech fod yn gyfarwydd gyda'ch offer, eich gallu a'r ardal lle rydych yn reidio – paratowch yn unol â hynny. Dylech fod yn hunan-gynhaliol bob amser, cadwch eich offer mewn cyflwr da a sicrhau bod gennych gyflenwadau priodol

ar gyfer newid mewn tywydd neu amodau eraill. Mae taith dda yn foddhad i chi ac nid yn faich ar bobl eraill. Gwisgwch helmed ac offer diogelwch priodol bob amser.

### **Côd Cefn Gwlad**

1. Mwynhewch gefn gwlad a pharchu ei bywyd a'i gwaith
2. Gochelwch rhag pob perygl tân
3. Sicrhewch pob giât
4. Cadwch eich cwn dan reolaeth ofalus
5. Cadwch at y llwybrau cyhoeddus ar draws ffermdir
6. Defnyddiwch gatiâu a chamfeydd i groesi ffensys, gwrychoedd a waliau
7. Gadewch lonydd i dda byw, cnydau a pheiriannau fferm
8. Ewch â'ch sbwriel gartref gyda chi
9. Helpwch gadw dwr yn lân
10. Amddiffynnwch fywyd gwyllt, planhigion a choed
11. Cymerwch ofal arbennig ar ffyrdd cefn gwlad

**Cedwch llwybrau ar agor trwy osod esiampl dda, gan feicio'n gyfrifol ac amgylcheddol-gymdeithasol.**

**Mae'r canlynol yn esbonio'r Côd Cenedlaethol ar gyfer mynegbyst hawliau tramwy cyhoeddus, a argymhellir gan y Comisiwn Cefn Gwlad: -**



**Llwybrau cerdded** ar gyfer cerddwyr yn unig



**Llwybr marchog** – mae gennych hawl i gerdded, reidio ceffyl a beicio ar llwybr marchog. Rhaid i feicwyr ildio i gerddwyr a marchogion.



**Cilffordd** – Traciau heb eu harwynebu fel rheol. Mae'r rhain yn agored i gerddwyr, marchogion, beicwyr a rhai cerbydau modur.



**Llwybrau gyda chaniatâd** – Nid yw'r rhain yn hawliau tramwy cyfreithiol, ond mae'r tiffeddiannwr wedi rhoi caniatâd i'r llwybr gael ei ddefnyddio am y tro.



**Llwybr Cenedlaethol** – Gelwir hefyd yn Llwybr Pell. Mae rhan o Llwybr Clawdd Offa yn rhedeg trwy Sir Ddinbych.

Dangosir llwybrau troed, llwybrau marchog a chilffyrdd ar fapiau Arolwg Ordnans. Mae'r rhain fel rheol yn gywir ond nid ydynt yn darparu tystiolaeth bod hawl tramwy gyhoeddus. Mae prawf pendant i'w gael ar y map swyddogol a gedwir gan yr Awdurdod Priffyrdd. Gellir edrych ar y map swyddogol yn y swyddfeydd Sirol a Dosbarth. Mae copïau hefyd ar gael mewn rhai Llyfrgelloedd a chan Gyngorau Cymuned.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglyn â hawliau tramwy, yna cysylltwch gyda'r Swyddog Hawliau Tramwy, Adran Briffyrdd, Cyngor Sir Ddinbych, Caledfryn, Ffordd y Ffair, Dinbych, LL16 3RJ, Ffôn:01824 706800.